SKSRACC9

Llunio deunydd ysgrifenedig ar gyfer defnydd aml-lwyfan i ategu a hyrwyddo cynnwys radio a sain

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â llunio deunydd ysgrifenedig i’w ddefnyddio ledled ystod o lwyfannau cyfryngau i ategu, a hyrwyddo cynnwys radio a sain.

Gallai hyn ymdrin ag ysgrifennu cynnwys ar gyfer gwefan neu i’w gyflwyno ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallai hefyd olygu ysgrifennu deunydd hyrwyddo ar gyfer cynnwys gorsaf neu raglen, er dibenion marchnata, neu ar gyfer canllawiau rhaglenni a rhestrau.

Mae’r safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sy’n ysgrifennu deunydd ar gyfer defnydd aml-lwyfan yn y maes radio a sain.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ysgrifennu mewn arddull sy’n addas ar gyfer y gynulleidfa darged a diben y cyfathrebu
2. dilyn yr arferion ysgrifennu, y canllawiau arddull a’r polisïau sefydliadol
3. strwythuro cynnwys ysgrifenedig fel ei fod yn hawdd i’w ddarllen a’i ddefnyddio
4. cynhyrchu isdeitlau neu ddisgrifiadau i gyd-fynd gydag asedau gweledol neu glipiau radio, sain a fideo
5. darparu geiriad eglur ac sy’n hawdd i’w ddefnyddio ar gyfer unrhyw hyperddolenni
6. defnyddio technegau optimeiddio peiriant chwilio yn eich deunydd ysgrifennu
7. prawfddarllen eich copi a chywiro unrhyw wallau
8. gwirio bod yr wybodaeth yn y deunydd ysgrifenedig yn gywir
9. gwirio a chadarnhau bod y deunydd yn hawdd i’w ddefnyddio
10. gwirio bod cynnwys y deunydd ysgrifenedig yn cydymffurfio gyda’r ddeddfwriaeth, rheoliadau’r diwydiant a’r canllawiau sefydliadol
11. cyflwyno deunydd ysgrifenedig o’r hyd y cytunwyd arno ac yn brydlon
12. hysbysu cydweithwyr ar unwaith os oes unrhyw anawsterau’n codi

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y confensiynau, cyfyngiadau, posibiliadau a'r cyfleoedd caiff eu cyflwyno gan y llwyfan targed ar gyfer cyfathrebu gyda deunydd ysgrifenedig
2. sut i egluro diben y deunydd ysgrifennu, y llwyfan neu'r llwyfannau i'w ddosbarthu a'r gynulleidfa darged ar gyfer y cynnwys radio neu sain
3. yr egwyddorion gramadeg, atalnodi a sillafu, a'r adnoddau a'r dulliau ar gyfer gwirio'r rhain
4. pwysigrwydd iaith, cynnwys ac arddull ysgrifennu amrywiol i ymgysylltu gyda gwahanol gynulleidfaoedd targed
5. sut i adrodd stori, cyflwyno dadleuon, crynhoi gwybodaeth gymhleth, a chyfathrebu pwyntiau allweddol
6. y gwahaniaeth rhwng ffeithiau a sylwadau
7. sut i strwythuro deunydd a chynnwys ysgrifenedig ar gyfer y gynulleidfa darged ac ymhen confensiynau'r cyfrwng cyflwyno
8. sut i ysgrifennu a strwythuro testun ar gyfer cyfrwng aflinol
9. pwysigrwydd hygyrchedd a phwy sy'n gyfrifol amdano
10. sut i gyflawni optimeiddiad peiriant chwilio drwy ddefnyddio geiriau allweddol wrth ddefnyddio deunydd ysgrifenedig ar gyfer llwyfannau ar-lein
11. a oes asedau eraill ar gael e.e. clipiau gweledol, radio, sain neu fideo i ategu'r deunydd ysgrifenedig
12. sut i gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth, rheoliadau'r diwydiant a'r canllawiau sefydliadol
13. y graddfeydd amser, y terfynau amser a'r cyfanswm testun sydd ei angen ar gyfer defnydd aml-lwyfan

SKSRACC9

Llunio deunydd ysgrifenedig ar gyfer defnydd aml-lwyfan i ategu a hyrwyddo cynnwys radio a sain

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSRAC11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cydlynydd Cynhyrchu, Rheolwyr Stiwdio, Rheolwr Gorsaf, Cyflwynydd Radio, Cynhyrchydd Technegol, Cynorthwyydd Darlledu, Cynhyrchydd Cynorthwyol, Cynhyrchydd, Cynhyrchydd Gweithredol, Cynhyrchydd Drama, Cynhyrchydd Comedi, Cynhyrchydd Rhaglenni Dogfen, Cynhyrchydd Podlediadau, Cynhyrchydd Sain |
| **Cyfres/Set** | Creu Cynnwys Radio a Sain |
| **Geiriau Allweddol** | crue; radio; sain; cynnwys; llwyfannau cyfryngau; hyrwyddo; deunydd ysgrifenedig; asedau gweledol; cynulleidfa darged; terfynau amser; defnydd aml-lwyfan; |